

Neidio o lawenydd

“Yr awr honno gorfoleddodd yn yr Ysbryd Glân, ac meddai: ‘Yr wyf yn dy foliannu di, O Dad.’ (adn. 21)

Beth am ddarllen Luc 10:1–24 ac yna myfyrio

Mae rhai Cristnogion yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd cysylltu Iesu â llawenydd. Maen nhw'n dadlau fel hyn: ym mhobman yn yr Efengyl, rydyn ni'n gweld Iesu'n symud yn ei flaen at ddiodeffaint y groes. Roedd Iesu'n ddyn dwys a sobr, ac er bod ganddo heddd fel afon yn llifo drwy ei enaid, oddi mewn roedd bob amser yn brwydro oherwydd y groes a'i gwarth oedd o'i flaen. Yn ôl y bobl hyn, mae'n sicr mai sobrydd oedd yn nodweddu Iesu yn hytrach na llawenydd.

Dylai'r rhai sydd o'r farn hon edrych yn fwy manwl ar ddarlleniad heddiw. Pan ddychwelodd ei ddisgyblion ar ôl bod yn cenhadu gyda hanesion o fuddugoliaeth dros y diafol, mae Iesu'n diolch i'r Tad ac, meddai Luc, “gorfoleddodd yn yr Ysbryd Glân”. Yn ôl Paul Thigpen, mae'r geiriau Groeg sy'n cael eu cyfieithu yma fel ‘gorfoleddodd’ yn golygu'n llythrennol ‘neidio o lawenydd’. Gall fod yn anodd i rai ddychmygu hyn, ond os ydy hyn yn wir, yna byddai Iesu wedi bod yn neidio o lawenydd oherwydd bod pobl wedi cael eu hachub o law'r diafol.

Dyna i chi olygfa i'r disgyblion ei gweld: y Mab, yn yr Ysbryd, yn moli'r Tad ac yn ffrwydro o lawenydd. Oedd e'n dawnsio, yn neidio o gwmpas? Mae'n bosib. “Am funud”, meddai Paul Thigpen, “cafodd llen y nefoedd ei dynnu i'r ochr a chafodd llond llaw o eneidiau gostyngedig weld cip ar yr hyfrydwch dwyfol sy'n llifo bob amser o fewn y Drindod sanctaidd.” Byddai gwledigaeth o'r fath yn ddigon i beri i unrhyw un neidio o lawenydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 2:1–12; Luc 15:3–10; Dat. 12:7–12

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd ymateb y sêr-ddewiniaid i'r seren?
2. Beth oedd ymateb y bugail a'r wraig yn y damhegion?

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, dydw i erioed wedi dy ddychmygu yn neidio o lawenydd. Ond dw i'n gweld sut y byddai gwledigaeth debyg i'r un a welaist ti yn llenwi dy enaid â llawenydd. Dw i'n agor fy nghalon er mwyn i'r weledigaeth honno lonni f'enaid innau. Boed i minnau hefyd fod ag achos i neidio o lawenydd. Amen.